

TGCh / Iaith

Dewiswch wlad – unrhyw wlad yn y byd! Dewiswch un nad ydych yn gwybod llawer amdani. Ewch ati i ddysgu am y wlad yna dewis unrhyw ffordd i ddysgu eraill yn y dosbarth – efallai Slides / iMovie / poster... Mae'r dewis i fyny i chi.

Dyma rai syniadau ar ein thema y byd a'i bobl.

Oes gennych chi syniadau eraill?

**COFIWCH YRRU EICH GWAITH ATOM AR
GOOGLE CLASSROOM neu CLASS DOJO**

Mathemateg

Edrychwch ar yr arian sy'n cael ei ddefnyddio mewn gwledydd gwahanol.

Ewch ati i ymchwilio:

- Faint o arian gwledydd eraill sy'n cyferth â £1?
- Faint mae pethau'n gostio mewn gwledydd eraill e.e. torth o fara / afal?

Beth arall allwch chi ddysgu am arian mewn gwledydd eraill?

Daearyddiaeth

Allwch chi ddod o hyd i'r pellter rhwng Cymru a gwledydd eraill?

Allwch chi ddangos eich gwaith ar fap neu mewn tabl?

Addysg Gorfforol

Wrth feddwl am Gymru rydym yn meddwl am rygbi. Oes gemau gwahanol mewn gwledydd gwahanol?

Fedwrch chi ddysgu un ohonynt? Beth am ysgrifennu cyfarwyddiadau sut mae chwarae'r gem!

Thema: Y Byd a'i bobol



Iaith

Dewiswch iaith i'w astudio. Sut mae'n wahanol / tebyg i Cymraeg a Saesneg? Oes geiriau tebyg?

Allwch chi ddysgu sut i ddweud:

- Helo
- Ta ta
- Bore da
- Diolch
- Os gwelwch yn dda
- Cyfri i 10

yn yr iaith?

Allwch chi ffilmio eich hun yn dweud rhai o'r rhain i ddysgu'r iaith i eraill?

Celf

Mae gwledydd o gwmpas y byd yn gyfoeth o gelf. Beth am geisio gwneud gwaith tebyg e.e.

Llun smotiau o Awstralia (defnyddiwch cotton bud i wneud y smotiau).



Patrymau dwylo tebyg i rai a welir yn India.



Oes gennych eich syniad eich hun o wlad arall?

Coginio

Mae gwledydd o amgylch y byd yn bwyta llawer o fwydydd gwahanol. Allwch chi goginio bwyd o wlad arall?

Beth am gael noson bwyd rhyngwladol!

Cofiwch dynnu lluniau a'u gyrru i ni!

